Adran Gwaith
a Phensiynau




# Gweithdy Adolygiad Timms

Yn edrych ar fudd-dal o'r enw
**Taliad Annibyniaeth Personol.**
Yn gryno, ei enw yw **PIP**.






## Gwybodaeth ddefnyddiol i bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithdy

# Y gweithdy hwn




**Gweithdy** yw pan fydd grŵp o bobl yn dod at ei gilydd i siarad a rannu syniadau.



Mae'r gweithdy hwn am **adolygiad** o'r enw **Adolygiad Timms.**

Mae **adolygiad** yn golygu edrych ar rywbeth i ddarganfod mwy amdano.




Mae'r Adolygiad Timms yn edrych ar **fudd-dal** o'r enw **Taliad Annibyniaeth Personol**.

Yn gryno, ei enw yw **PIP**.




Mae **budd-daliadau** yn golygu arian gan y Llywodraeth i bobl sydd angen help i dalu am bethau.

Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn sâl, yn anabl, neu nad oes ganddynt swydd.




Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am Adolygiad Timms a pham rydym yn cynnal y gweithdy hwn.

## PIP




Mae PIP yn **fudd-dal iechyd ac anabledd**.



Mae **budd-daliadau iechyd ac anabledd** yn arian ychwanegol y gall rhai pobl ei gael gan y Llywodraeth.



Mae'r arian i helpu i dalu am bethau ychwanegol sydd eu hangen arnoch i'ch helpu oherwydd eich anabledd neu **gyflwr iechyd**.



Problem sy'n effeithio ar eich corff yw **cyflwr iechyd**. Pethau fel cael cefn gwael, poen, problemau gyda'ch calon neu anadlu.



Neu gallai fod yn gysylltiedig â'ch **iechyd meddwl.**

**Iechyd meddwl** yw pethau fel eich meddyliau, eich teimladau a sut rydych yn ymdopi â bywyd bob dydd.



Mae pobl yn defnyddio'r arian o PIP i helpu gyda phethau bob dydd fel coginio neu siopa.



Neu maen nhw'n ei ddefnyddio i gael help gyda theithio a symud o gwmpas.

# Yr Adolygiad Timms



Mae'r Llywodraeth yn gwneud llawer o waith yn edrych ar PIP.



Maen nhw eisiau sicrhau bod PIP yn deg ac yn rhoi'r gefnogaeth orau i bobl ar gyfer eu hanghenion.



Ac maen nhw eisiau i PIP helpu pobl i fyw'n **annibynnol**.

Mae **annibynnol** yn golygu gwneud rhai pethau ar eich pen eich hun a rhai pethau gyda rhywfaint o gefnogaeth.



Mae grŵp o bobl o'r enw **grŵp llywio** yn arwain yr adolygiad.



Maen nhw'n edrych ar ffyrdd y gallai'r Llywodraeth wneud PIP yn well.

# Pwy sy'n rhan o'r Adolygiad Timms



Bydd y grŵp llywio yn gweithio gyda llawer o wahanol bobl ar yr adolygiad.



Mae hyn yn cynnwys:

- Pobl anabl a gofalwyr.



- Sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan bobl anabl neu'n cefnogi pobl anabl.



- Pobl sy'n gwybod llawer am iechyd, anabledd a budd-daliadau.



- Pobl sy'n gweithio i'r Llywodraeth.



- Pobl eraill sydd â diddordeb mewn budd-daliadau iechyd ac anabledd.



Mae hyn yn cynnwys pawb a ddaeth i'r gweithdy heddiw.



Gelwir y ffordd hon o gydweithio yn **gyd-gynhyrchu.**



Mae'n golygu y bydd pobl sy'n cael eu heffeithio gan PIP yn helpu i wneud y penderfyniadau am yr adolygiad.

# Pwy sy'n arwain yr Adolygiad Timms



Bydd y grŵp llywio yn cynllunio ac yn arwain yr adolygiad.



Mae 15 o bobl yn y grŵp llywio.



Mae 3 o bobl yn y grŵp yn **gyd- gadeiryddion**.
Nhw sy'n gyfrifol am gyfarfodydd ynghylch yr Adolygiad Timms.



Mae'r grŵp llywio yn cynnwys cymysgedd o bobl sy'n gwybod am iechyd, anabledd a budd-daliadau.



Mae gan y rhan fwyaf o bobl yn y grŵp anabledd neu gyflwr iechyd.
Neu maen nhw'n gweithio i leoedd sy'n helpu pobl anabl i siarad allan.



Gwaith y grŵp llywio yw meddwl am syniadau am sut i wella PIP.

# Pam ein bod yn cynnal gweithdai




Mae'r grŵp llywio eisoes wedi dechrau edrych ar PIP.



Maen nhw eisiau casglu mwy o wybodaeth amdano.



Mae'r grŵp llywio eisiau clywed gan lawer o bobl wahanol am PIP.








Maen nhw wedi meddwl am lawer o wahanol ffyrdd i bobl ddweud eu dweud.

Pethau fel arolygon, siarad â phobl a chynnal gweithdai.

# Dweud eich dweud




Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am PIP.



Byddwn yn ysgrifennu i lawr yr hyn y mae pawb yn ei ddweud.



Byddwn yn rhannu'r pethau rydych yn dweud wrthym gyda'r grŵp llywio.



Ond ni fyddwn yn dweud eich enw wrthynt.



O ganlyniad, ni fyddant yn gallu dweud mai chi a ddywedodd wrthym.

# Yr hyn sy'n digwydd nesaf



Bydd y grŵp llywio yn edrych ar bopeth a ddywedodd pawb.




Bydd yn eu helpu i lunio rhai syniadau am yr hyn y gallai'r Llywodraeth ei wneud i wella PIP.




Byddant yn ysgrifennu adroddiad yn yr hydref. Bydd yn dweud beth sydd angen digwydd nesaf.




Diolch am gymryd rhan yn y gweithdy.